1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Strategaeth Ddigidol

## 2021-2025

Trawsnewid Digidol @ Prifysgol Aberystwyth

# Cyflwyniad

Croeso i Strategaeth Ddigidol Prifysgol Aberystwyth. Diben y strategaeth hon yw edrych ymlaen a gosod gweledigaeth ar gyfer mabwysiadu ymagwedd ddigidol ar draws y sefydliad. Dros y cyfnod a amlinellir yn y strategaeth, bydd digidol yn graidd i holl weithgareddau'r sefydliad ac yn y ddogfen hon eglurir sut y caiff ei ddefnyddio i gyfoethogi dysgu ac addysgu, ymchwil, ein gweinyddiaeth a phrosesau yn ogystal â'n presenoldeb byd-eang.

Datblygwyd y strategaeth drwy ymgynghori â myfyrwyr, staff, penaethiaid adran a'r tîm Gweithredol. Mae wedi tynnu ar dystiolaeth o ffynonellau niferus gan gynnwys Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr (NSS), Holiaduron Gwerthuso Modiwl, sylwadau Rho Wybod Nawr, Arolygon Defnyddwyr y Gwasanaethau Gwybodaeth, a'r tri arolwg Profiad Digidol Insights JISC (i staff addysgu, staff proffesiynol a myfyrwyr). Ymhellach, mae adroddiadau a llenyddiaeth ddiweddar (gweler cyfeirnodau), cynadleddau a strategaethau digidol eraill y Brifysgol wedi helpu i'w ffurfio. Disgwyliwn i'r strategaeth fod yn 'ddogfen fyw', a gaiff ei diweddaru dros y cyfnod gan ystyried profiad, amgylchedd a blaenoriaethau newidiol, a'r lefelau o gyllid sydd ar gael. Fodd bynnag, mae'r themâu a'r egwyddorion ehangach a osodir yn y Strategaeth Ddigidol hon yn debygol o aros yn fwy cyson gan helpu'r Brifysgol i lywio ei ffordd ymlaen.

Mae'r Strategaeth Ddigidol wedi'i chostio'n llawn ac mae cynlluniau gweithredu manwl wedi'u datblygu. Caiff cyllidebau cyfalaf a refeniw i gefnogi gweithrediad y Strategaeth eu cyflwyno fel rhan o broses y cylch cynllunio blynyddol.

Mae'r ddogfen hon yn egluro gweledigaeth uchelgeisiol i drawsnewid y Brifysgol yn sefydliad digidol sy'n arwain y sector. Mae'n cefnogi Cynllun Strategol y Brifysgol 2018-2023, Strategaeth Dysgu ac Addysgu 2019-2022, a'r Strategaeth Ymchwil ac Arloesi 2019-24. Bydd y strategaeth yn gweithio gyda strategaethau Ystadau a Phobl y Brifysgol ac yn eu hategu. Mae'r ddogfen hefyd yn adlewyrchu Strategaeth Ddigidol i Gymru Llywodraeth Cymru. Er eglurder, mae'n werth nodi'r hyn nad yw'r strategaeth:

- Nid yw'n strategaeth ar gyfer yr adran Gwasanaethau Gwybodaeth; mae'n strategaeth ar draws y Brifysgol y dylid ei pherchnogi ar draws y sefydliad.
- Nid yw'n ymwneud â chyfrifiaduron a TG yn unig; mae pobl a diwylliant yn allweddol i'r strategaeth, fel y mae'r ffordd rydym yn gweithio.
- Nid yw'n ymwneud â dysgu ac addysgu'n unig; mae'n cwmpasu pob agwedd ar fusnes y Brifysgol.




Mae digidol yn rym sy'n aflonyddu, gyda modelau busnes diwydiannau cyfan, o gerddoriaeth, cyhoeddi a manwerthu'n cael eu trawsnewid. Mae cyfradd newid y chwyldro digidol yn cyflymu. Mae ton o dechnolegau sy'n aeddfedu fel deallusrwydd artiffisial, awtomeiddio, realiti estynedig / rhithwir, Rhyngrwyd Pethau, roboteg, dadansoddeg data a symudol / 5G yn cynnig cyfleoedd enfawr yn ogystal â bygythiadau i Brifysgolion. Mae disgwyliadau myfyrwyr cyfredol a darpar fyfyrwyr o ran eu profiad digidol yn y Brifysgol hefyd yn esblygu'n gyflym. Ni all Prifysgol Aberystwyth fforddio bod yn hunanfodlon; mae angen iddi ymgysylltu'n dechnolegol a symud ymlaen ar lwybr o aeddfedrwydd digidol uwch. Diben cyffredinol y strategaeth yw gosod y Brifysgol ar sylfaen gref i ymateb yn rhagweithiol i dueddiadau digidol a chymdeithasol ehangach, yr amgylchedd technolegol sy'n newid yn gyflym, ac yn y pen draw fod yn llwyddiannus wrth gyflawni ei hamcanion drwy drawsnewid digidol.

*Tîm Davies, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Gwybodaeth, Mehefin 2021*

# Cyd-destun

## Y Pandemig Byd-eang

Roedd gwaith wedi dechrau ar y strategaeth yn 2019, ond yn gynnar yn 2020 gorfodwyd y DU i fynd i gyfnod clo gan bandemig byd-eang COVID. I'r Brifysgol, roedd hyn yn golygu symud yn gyflym i staff yn gweithio gartref a myfyrwyr yn dysgu ar-lein. Roedd digidol yn hanfodol ar gyfer addasu i'r heriau roedd pawb yn eu hwynebu. O fewn wythnosau, cafwyd newidiadau mewn ymarfer gan fabwysiadu technolegau a fyddai cyn hynny wedi cymryd blynyddoedd. Roedd hyn yn dangos bod modd goresgyn rhwystrau a chyflwyno newid yn gyflym pan oedd angen ac ymdeimlad o frys. Roedd rhaid i'r Gwasanaethau Gwybodaeth weithredu ar frys ac ymateb i'r sefyllfa oedd yn newid yn gyflym. Yn gyffredinol, mae sefydliadau â galluoedd digidol uwch wedi ymdopi'n well yn y pandemig. Roedd modd iddynt ddiwallu anghenion eu cwsmeriaid yn well o bell, a gweithredu mewn amgylchedd ar-lein gan addasu'n gyflym i ddigwyddiadau allanol. Mae angen i ni barhau gyda'r dull ystwyth ac ymatebol hwn fel norm ac nid eithriad wrth i ni symud ymlaen ar ôl y pandemig. Mae'r strategaeth hon wedi'i haddasu yn 2021 yn sgil y pandemig, sy'n adlewyrchu'r cyflymu mewn tueddiadau digidol oedd eisoes yn bodoli; gwir "symudiad digidol".







## Tueddiadau mewn Technoleg

Mae nifer o themâu technolegol tymor hir sy'n ymddangos yn effeithio'n gynyddol ar ddiwydiant, byd gwaith a chymdeithas yn gyffredinol. Mae'r termau "Diwydiant 4.0" neu "y Pedwerydd Chwyldro Diwydiannol" wedi cael eu defnyddio i ddisgrifio effaith y technolegau hyn, sy'n cynnwys:

- Deallusrwydd Artiffisial
- Awtomeiddio
- Rhyngrwyd Pethau
- Data Mawr a Dadansoddeg
- Realiti Rhithwir ac Estynedig
- Roboteg

Mae cyflymu'r tueddiadau hyn yn aflonyddu diwydiannau cyfan a modelau busnes. Ar y cyfan nid yw aflonyddu technolegol wedi effeithio ar addysg uwch, gyda mentrau digidol yn cael eu hystyried yn ymylol ac yn gefnogol yn bennaf, wedi'u canolbwyntio ar feysydd swyddogaethol cul. Fodd bynnag mae "Addysg 4.0" yn edrych ar ddefnyddio'r technolegau hyn ar gyfer dysgu, addysgu, a'r profiad myfyriwr ehangach yn ogystal â pharatoi myfyrwyr ar gyfer byd gwaith Diwydiant 4.0. Mae'r datblygiadau hyn yn digwydd mewn cyd-destun o ddisgwyliadau sy'n codi, cystadleuaeth gynyddol, pwysau costau a chyllido, targedau cynaladwyedd, yn ogystal â chyfleoedd posibl ar gyfer cynhyrfu'r sector addysg uwch drwy farchnadoedd a modelau busnes newydd a alluogir yn ddigidol. Drwy'r strategaeth hon bydd y Brifysgol yn ymgysylltu â'r technolegau hyn.

# Prifysgol Aberystwyth

Yn Aberystwyth, mae'r gwasanaethau digidol a gwybodaeth wedi chwarae rhan bwysig ym mhrofiad cyffredinol rhagorol myfyrwyr yn y Brifysgol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae canlyniadau TG yr NSS wedi bod yn uchel yn gyson a bellach (2020) ar y brig yn y DU ymhlith Prifysgolion yng nghynghrair y Times & Sunday Times (94%). Mae'r gwasanaethau llyfrgell (yn cynnwys adnoddau gwybodaeth) yn drydydd yn y DU ac ar y brig yng Nghymru ar 93%. Mae adnoddau penodol i gyrsiau (yn cynnwys cyfarpar a meddalwedd) hefyd yn sgorio'n uchel iawn gyda boddhad o 93%. Fel enghraifft o "Ddigideiddio" a photensial digidol, roedd rôl ganolog i dechnoleg wrth alluogi prosesau gwella ansawdd yr Holiaduron Gwerthuso Modiwlau, Rho Wybod Nawr a Dy Lais ar Waith a arweiniodd at gynnydd dramatig yn sgoriau boddhad NSS a safleoedd cynghrair y Brifysgol o 2015 ymlaen. Nodwyd y technolegau dysgu a mentrau llais y myfyriwr a grybwyllir uchod yn benodol yn ein dyfarniad TEF Aur yn 2018 a chrybwyllwyd digidol yn eang yn ein gwobrau Times & Sunday Times am "Brifysgol y Flwyddyn am Ansawdd Addysgu". Roedd arolygon mewnol (tan arolwg Tachwedd 2020 yn ystod COVID) yn dangos y lefelau uchaf o foddhad defnyddwyr gyda'r Gwasanaethau Gwybodaeth ers dechrau'r arolwg dros 15 mlynedd yn ôl. Wrth wthio'r agenda digidol yn ei flaen yn Aberystwyth, mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth wedi canolbwyntio ar nifer o ddulliau o gyflawni'r canlyniadau hyn heb wariant. Mae'r rhain wedi cynnwys ffocws cryf ar lais y myfyriwr a gwasanaeth i gwsmeriaid. Mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth wedi derbyn dyfarniad Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid sy'n meincnodi Gwasanaethau Gwybodaeth fel adran sy'n arwain y sector mewn nifer o elfennau o wasanaeth i gwsmeriaid.






Er bod nifer o agweddau cadarnhaol i'r dirwedd ddigidol bresennol ym Mhrifysgol Aberystwyth yn 2021, rydym yn wynebu nifer o heriau:

1. Gwaddol o danfuddsoddi tymor hir mewn technoleg na ddechreuodd wella tan yn ddiweddar.

2. Yn rhannol oherwydd hyn, buddsoddiad anwastad mewn datrysiadau digidol ar draws gweithrediadau'r Brifysgol, gyda'r rhan fwyaf yn canolbwyntio ar ddysgu ac addysgu.

3. Ymhellach, mae hyn wedi arwain at ddefnydd helaeth o ddatrysiadau mewnol ar y safle i lenwi'r bylchau, ac mae'r rhain bellach wedi darfod, yn or-gymhleth ac yn anodd eu cynnal a'u datblygu. Mae hyn yn cynnwys systemau busnes craidd fel y system cofnodion myfyrwyr.

4. Yn hanesyddol, agwedd ddatganoledig at TG sydd wedi golygu nad oes llawer o asedau digidol yn cael eu rheoli'n ganolog gan arwain at ddiogelwch, dibynadwyedd a chynaladwyedd negyddol, ac effaith ar werth am arian.

5. Diffyg "perchnogaeth" ddigidol ar draws y sefydliad yn cynnwys data a systemau sy'n ymwneud â rolau a swyddogaethau.

6. Er eu bod wedi gwella yn sgil gofynion y pandemig er mwyn gweithio o bell, mae sgiliau a galluoedd digidol ein staff a'n myfyrwyr yn amrywiol iawn, gan effeithio ar allu'r Brifysgol i fanteisio ar ddigidol a rhagolygon cyflogadwyedd ein myfyrwyr.

# Cenhadaeth Ddigidol

Cenhadaeth y Strategaeth Ddigidol yw

***"Grymuso Ein Pobl drwy Dechnoleg Ddigidol a Gwybodaeth".***



# Gweledigaeth Ddigidol

Y weledigaeth yw

***"Trawsnewid Prifysgol Aberystwyth yn Sefydliad Digidol sy'n Arwain y Sector".***







# Mae'r strategaeth yn cynnwys

## Sylfaeni

Y themâu croestoriadol hyn yw "sylfaeni" y Strategaeth Ddigidol (ar waelod y diagram isod). Gellir ystyried y rhain yn rhagofynion ac yn gefnogol i'r pileri uchod.

### Sgiliau Digidol

Sicrhau bod gan ein staff a'n myfyrwyr y sgiliau, y gallu a'r hyder i ddefnyddio technolegau digidol yn y Brifysgol ac yn eu hastudiaethau. Bydd gan fyfyrwyr sy'n graddio o Brifysgol Aberystwyth y sgiliau digidol fydd eu hangen yng ngweithle'r dyfodol.

### Seiber Ddiogelwch

Fel maes lle ceir risg uchel, rhaid blaenoriaethau Seiber Ddiogelwch y Brifysgol fel ystyriaeth a berchnogir gan y sefydliad cyfan. Cynhelir ystod eang o weithgaredd yn cynnwys hyfforddi, cydweithio â chyrff allanol, cyflawni safonau, a rhoi technolegau newydd ar waith i liniaru'r risgiau.

### Seilwaith Digidol

Byddwn yn sicrhau bod gan y Brifysgol seilwaith TG a chyfathrebu cadarn, modern a gynhelir yn dda. Yn allweddol i'r strategaeth seilwaith mae'r ymagweddau "Cwmwl yn Gyntaf" a "Campws Clyfar".

### Gweithle Digidol

Bydd y thema hon yn canolbwyntio ar alluogi model o "Weithio Hybrid" i staff. Bydd hybrid yn cynnwys staff yn gweithio o bell rywfaint o'r amser, a rhywfaint yn y swyddfa.

## Pileri

Mae’r rhain yn cynrychioli meysydd swyddogaethol penodol ar gyfer datblygu a gwella digidol. Ym mhob un o’r meysydd byddwn yn defnyddio Digidol i wella effeithlonrwydd, codi ansawdd, cefnogi datblygiad modelau busnes, marchnadoedd a/neu ffrydiau cyllido newydd.

### Cyflwyno Profiad Dysgu, Addysgu a Myfyriwr Rhagorol

Bydd y ffrwd hon yn canolbwyntio ar gynorthwyo i gyflawni Strategaeth Dysgu ac Addysgu’r Brifysgol 2019-2022 “Strategaeth Rhagoriaeth Aberystwyth” drwy ddatblygu fframwaith “Dysgu Cyfunol”, adolygu’r prif dechnolegau a pholisïau dysgu ac addysgu, adolygu dyfodol asesu ac ymateb i gynhwysiant digidol.

### Cefnogi Rhagoriaeth Ymchwil ac Arloesi

Bydd y ffrwd hon yn y Strategaeth Ddigidol yn canolbwyntio ar gyflawni Strategaeth Ymchwil ac Arloesi’r Brifysgol 2019-24. Bydd hyn yn cynnwys rhoi technoleg ar waith i gefnogi’r cylch oes ymchwil ac ymgysylltu â busnes, cyflwyno digwyddiadau ymchwil hybrid, ymateb i’r agenda gwyddoniaeth agored, ac adolygu cyflenwi TG ymchwil.

### Symleiddio a Moderneiddio ein Prosesau Gweinyddol


Defnyddir digidol ar draws y Brifysgol i wella effeithlonrwydd ac ansawdd prosesau. Byddwn yn adolygu, datblygu, ailddatblygu neu amnewid systemau busnes allweddol; sicrhau, lle caiff systemau eu cyflwyno, eu bod yn cael eu mabwysiadu’n gyson; a datblygu menter ar wella gwasanaeth cwsmeriaid ar draws Brifysgol.

### Cyfoethogi ein Presenoldeb Digidol


Bydd y thema hon yn canolbwyntio ar gyfoethogi presenoldeb digidol y Brifysgol drwy barhau i weithredu Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid, adolygu’r wefan, a datblygu Mewnrwyd.

Mae’r sylfaeni a’r pileri hyn yn cefnogi’r Strategaeth Ddigidol gyffredinol sydd yn ei thro yn cefnogi cyflawni amcanion strategol y Brifysgol.





# Egwyddorion Arweiniol




### ▲ Un Brifysgol.

Dylem weithredu'n gyson, gan ddefnyddio prosesu syml ac unffurf, gwaredu biwrocratiaeth a chwalu seilos. Bydd hyn yn cynnwys ffocws ar draws y sefydliad yn hytrach na nodau adrannol neu dîm. Ceir lefelau uwch o gydweddu a chydweithio ar draws y sefydliad.

### ▲ Rhagoriaeth.

Dylai gwasanaethau digidol fod yn rhai ansawdd uchel, arloesol, gan gyflenwi gwerth ychwanegol, wedi'u personoli a galluogi defnyddwyr i fod yn fwy cynhyrchiol. Bydd arloesi'n strategol ac yn seiliedig ar amcanion y Brifysgol. Bydd rheoli prosiectau a newid ystwyth yn cefnogi cyflawni datrysiadau ansawdd uchel.

### ▲ Perchnogaeth.

Rhaid i ddata a systemau gael eu perchnogi'n glir o fewn y sefydliad. Bydd arweinwyr a rheolwyr yn ymgysylltu'n ddigidol.

### ▲ Diogelwch.

Rhaid gwreiddio diogelwch yn niwylliant y Brifysgol, gan fod yn fusnes i bawb.

### ▲ Gallu.

Rhaid i'n staff a'n myfyrwyr feddu ar y sgiliau a'r hyder i fanteisio ar ddatrysiadau a gwybodaeth ddigidol.

### ▲ Cwsmer yn Gyntaf.

Dylid adeiladu datrysiadau a gwasanaethau o gwmpas y cwsmer yn y canol. Yn gyffredinol, dylid eu datblygu hefyd ar y cyd â'r cwsmer. Dylai datrysiadau fod yn hawdd eu deall a'u defnyddio.

### ▲ Data Un Ffynhonnell.

Dylid integreiddio data ac nid ei ddyblygu. Mae ansawdd data yn hanfodol i'r sefydliad a chaiff ei ddefnyddio'n gynyddol i lywio ac addasu hynt y Brifysgol.

### ▲ Cwmwl yn Gyntaf.

Caiff cyflwyno cwmwl ei ddewis yn ddiofyn, a dim ond pan nad oes dewis amgen hyfyw neu os yw'n ychwanegu gwerth y ceir datblygu mewnol a/neu letya ar y safle.

### ▲ Hygyrch.

Mae angen i'r holl wasanaethau fod yn hygyrch i bawb ac ar gael o unrhyw ddyfais, yn hawdd eu defnyddio a'u llywio.

### ▲ Dwyieithog.

Dylai llwyfannau digidol fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg, gan gefnogi natur ddwyieithog y Brifysgol a diwylliant Cymraeg. Dylai digidol gefnogi cymunedau Cymraeg cynaliadwy.

### ▲ Llesiant.

Dylai mentrau digidol ystyried llesiant y rheini sy'n defnyddio'r gwasanaeth, yn ogystal â hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

### ▲ Cynaliadwy.

Dylai pob menter ystyried ei heffaith amgylcheddol â'r nod o gefnogi lleihad mewn defnydd o adnoddau a chyflawni ein targed net-sero erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2030-1.

# Trawsnewid Digidol

Fel yr amlinellwyd yn y Weledigaeth, nod y strategaeth hon yw trawsnewid y Brifysgol yn ddigidol. Defnyddir y term "trawsnewid digidol" yn eang, ond beth yn union mae'n ei olygu?

Gellir gweld "Trawsnewid Digidol" yng nghyd-destun camau eraill: "Digido", i "Ddigideiddio", ac yna "Trawsnewid Digidol". Ni ddylid ystyried trawsnewid digidol ei hun yn gyrchfan, ond yn daith. Eglurir y termau ac enghreifftiau ymhellach isod:

| Digido | Digideiddio | Trawsnewid Digidol |
|---|---|---|
| ▲ Analog i ddigidol<br>▲ Trefnu gwybodaeth | ▲ Awtomeiddio prosesau<br>▲ Symleiddio prosesau | ▲ Strategol<br>▲ Newid diwylliannol<br>▲ Wedi'i gydlynu / ar draws y sefydliad |

## ▲ Digido

Digido yw'r broses o symud gwybodaeth analog i fformat digidol. Enghreifftiau o hyn fyddai bod taflenni, nodiadau darlith a sleidiau ar gael yn ddigidol ar yr amgylchedd dysgu rhithwir; ffurflenni gwe syml i gael gwybodaeth; sganio penodau o lyfrau a sicrhau eu bod ar gael; a darlithoedd a gyflwynir yn fyw ond a gaiff eu recordio'n ddigidol hefyd ac ar gael i'w gwylio'n ddiweddarach.

## ▲ Digideiddio

Mae Digideiddio yn cynnwys trawsnewid prosesau a gweithrediadau unigol. Mae hyn yn manteisio ar y cyfleoedd a geir drwy weithio'n ddigidol mewn maes penodol i awtomeiddio a symleiddio prosesau. Un enghraifft fyddai asesiadau digidol yn cael eu creu a'u cyflwyno'n ddigidol, gyda marcio ac adborth yn digwydd ar-lein. Mae'r broses yn cynnwys cydweddu testun ar gyfer canfod llên-ladrad a dulliau newydd o adborth fel sain neu fideo.



## ▲ Trawsnewid Digidol


Mae Educause yn disgrifio Trawsnewid Digidol fel hyn, "Yng nghyd-destun newidiadau cymdeithasol, economaidd, technolegol a demograffig ysgubol, mae trawsnewid digidol (Dx) yn gyfres o symudiadau dwfn a chydlynol o ran diwylliant, gweithlu a thechnoleg sy'n galluogi modelau addysgol a gweithredu newydd ac sy'n trawsnewid model busnes y sefydliad, ei gyfeiriadau strategol a'i gynnig gwerth." Mae'n cynnwys defnydd strategol a chydlynol ar draws y sefydliad o dechnolegau ynghyd â newid diwylliant. Enghraifft o hyn fyddai rheoli mabwysiadu dulliau dysgu cyfunol a gweithio hybrid sy'n trawsnewid yr ystâd a chyflwyno ein haddysg i farchnadoedd newydd ac mewn modelau newydd.

Mae Prifysgol Aberystwyth, a'r rhan fwyaf o SAUau yn y DU, yn defnyddio Digido a Digideiddio i wahanol raddau. Cyn COVID, er bod llawer o enghreifftiau da o gymhwyso digidol, nid yw'r mwyafrif o'r rhain yn strategol, ac mae'r sector yn llusgo'r tu ôl i eraill yn hyn o beth. Y weledigaeth, fel y nodwyd uchod, yw Trawsnewid Digidol ym Mhrifysgol Aberystwyth.

# Mesurau Llwyddiant

Mae'r Strategaeth Ddigidol yn cwmpasu amrywiaeth eang o weithgareddau a phrosiectau newydd. Bydd gan lawer o'r rhain eu dangosyddion perfformiad allweddol eu hunain i fesur eu llwyddiant unigol. Rydym yn argymell creu Grŵp Rheoli Digidol fydd yn ystyried sut i asesu effeithiolrwydd prosiectau unigol sy'n rhan o'r Strategaeth Ddigidol. Ar lefel strategol, defnyddir y dangosyddion canlynol i fesur llwyddiant y strategaeth:

- Canlyniadau NSS ar gyfer cwestiynau'n ymwneud â Digidol (dan "Adnoddau Dysgu").
- Canlyniadau cwestiynau "Adnoddau Dysgu" yn yr Holiaduron Gwerthuso Modiwl.
- Arolwg Defnyddwyr Gwasanaethau Gwybodaeth
- Arolwg Digital Insights JISC.



Prifysgol Aberystwyth
Aberystwyth
DU
SY23 3DD

/Prif.Aberystwyth
@prifysgol.aberystwyth
@Prifysgol_Aber
/prifysgolAberystwyth